# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 6ed yn Neuadd Coedybryn

**Yn bresennol** Cyng. Sharon Thomas (Cadeirydd), Cyng. Ceri Jones, Cyng. Emyr Jones, Cyng. Maldwyn Lewis, Cyng. Osian Davies, Cyng. Llyr Evans, Cyng. Sian Williams, Cyng. Mark Davies, Cyng. Carol Davies

**Clerc** Helen Horscroft

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng. Rob Jones a Cyng. Teifi Evans

**2. Datgan Diddordeb**

Neb

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

3.1 Derbyniodd pawb gopi o gofnodion mis Rhagfyr a gofynwyd i'r clerc ychwanegu :

3.2 Estyn cydymdeimlad i'r clerc ar farwolaeth mam yng nghyfraith ac i'r Cyng. Rob Jones ar farwolaeth ei fam.

3.3 Ma eisiau newid y gair Gorffennaf i Gorffen yn pwynt 4.3.

3.4 Yn pwynt 6.1 ishe dweud Cyfle i'r cyhoedd.

3.5 Dyle pwynt 15.9 ddweud Dreiniau Penrhiwpal.

Cafodd hwn ei gytuno 'da Cyng. Sian Williams a eiliwyd gan Cyng. Ceri Jones.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 Ynglyn a mandat NatWest, gofynnodd y Cynghorwyr i'r Clerc gysylltu a Gwyn Jones i weld a os modd iddi arwyddo ar y cyfrif er mwyn iddi allu siarad ar banc pan fydd eisiau.

4.2 Roedd noson canu carolau a goleuo'r coed yn un llwyddianus iawn . Ond cafodd Cyng. Sian Williams alwad ffon i weud fod golau Maesllyn ddim yn effeithiol a bod rhai pobol ddim yn ymwybodol o'r digwyddiad.

**5. Cyrsiau**

**5.1** Helen i fwrw ati i ddewis cyrsiau.

**6. Materion y Cynghorydd Sir**

6.1 Mae'r llyfyrgell newydd wedi agor yn Penmorfa.

6.2 Buodd diwrnod agored llwyddianus yn Fferm Lletytwppa ym mis Rhagfyr.

6.3 Ysgolion y Sir wedi bod ar gau oherwydd yr eira trwm.

**7. Gohebiaeth**

7.1 Tracy Gilmartin – Un Lais Cymru – Gwefan Un Llais Cymru – Cofrestru ar y wefan er mwyn i ni gael mynediad i'r ardal adodau.

7.2 Emma Parry-Jones – Cyngor Sir Ceredigion – swydd yn cael ei hysbysebu ar gyfer dau aelod Annibynnol ar Bwyllgor moesog a safonnau Cyngor Sir Ceredigion.

7.3 Martin Bull – Llywodraeth Cymru- swm priodol o dan adran 137 (4) a o Ddeddf Llywodraeth Lleol.

7.4 Emma Parry-Jones – Cyngor Sir Ceredigion – nodyn o'r swyddog monitro wedi cyfarfod Pwyllgor moesog a safonnau ar y 5.12.25.

7.5 Llywodraeth Cymru – The Senedd Cymru (Disqualification) order.

7.6 Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru – digwyddiad ar y cyd – cynllunio. Mawrth 19fed 10.30-1.30.

7.7 Cathryn Morgan – Cyngor Sir Ceredigion – Galwad agored- Uno'ch Galwad Agored. Dyddiad cau ffurflen gais 25.01.26.

7.8 Cais cynllunio A250954- Brongelli, Brongest.

7.9 Un Llais Cymru- Bwletin 15 – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 21.01.26 6-8yh. Hanfodol fod un cynrychiolydd o bob cyngor.

7.10 Tracy Gilmartin – Pwyllgor ardal Ceredigion -14.01.26 am 7.00 – cyfarfod ar-lein.

7.11 Dinas Llen Cymru – Gwahoddiad i Ddinas Llen UNESCO Aberystwyth – 2 cyfarfod- Castell Aberteifi Dydd Mawrth 13.01.26 4-6yh. Llyfyrgell Genedlaethol Aberystwyth 14.01.26 4-6yh.

7.12 Cyngor Sir Ceredigion – Nodiadau cyfarfodydd cynghorau Thref a Chymuned - Tachwedd 2025.

7.13 Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru – Neges blwyddyn newydd dda wrth y Prif Weithredwr.

**8. Cyllid**

8.1 Ni chafodd £8000 ei drosglwyddo mis diwethaf, aeth y llythyr ar goll yn y post. Cafodd llythyr arall ei hyrwyddo a penderfynwyd danfon y llythyr yma fel 'Post Arbennig'.

8.2 Gwnaeth Cyng. Maldwyn Lewis a Cyng. Emyr Jones arwyddo sieciau i :

Helen Horscroft – Clerc £270.54 , HMRC £67.60, Cyng. Ceri Jones £179.97.

**9. Awdit**

9.1 Aeth y Cadeirydd drwy ateb Gwyn Jones ynglyn ar awdit. Y Clerc i ddanfon e mlan i Awdit Cymru.

**10. Cais Cynllunio A250954 Brongelli, Brongest**

10.1 Dangosodd neb dim gwrthwynebiad.

**11. Cyfansoddiad**

11.1 Pawb i ail-ddarllen y cyfansoddiad yn barod i'w drafod yn mis Chwefror.

**12. Precept**

12.1 Ffurflen iw llanw mor gynted a phosib a chadw'r swm yn £10,000.

**13. Critical Bleed Units**

13.1 Penderfynwyd trafod hwn yn mis Chwefror.

**14. Bioamrywiaeth/Bio Diversity**

14.1 Byddwn yn trafod hwn ar ol i'r Cyng. Sharon Thomas neud webinar ar y pwnc.

**15. Asesiad Risg/Risk Assessment**

15.1 Bydd hwn yn cael ei drafod yn mis Chwefror.

**16. Ceisiadau Grant/Grant Applications**

16.1 Neuadd Coedybryn £500 tuag at golau newydd.

16.2 Eisteddfod Rhydlewis £100 tuag at piano.

16.3 Clwb Pel droed Fostrasol £172.38 x 2 tuag at bins sbwriel.

16.4 Neuadd Rhydlewis £265.28 tuag at offer newydd ir gegin.

16.5 Eisteddfod y Garreg Las 2026 – unrhyw gyfraniad.

16.6 Cytunwyd fod pawb yn cael yr arian , a bydd Eisteddfod y Garreg Las yn cael £300.

**17. Materion Ardal**

17.1 **Rhydlewis :** Mae llawer o tyllau ar waelod yr hewl ar bwys y garej.

17.2 Mae'r cigydd Mark Webb wedi ennill y Cigydd Gorau 2026 yn y 'Best of Welsh Business Awards'.

17.3 **Maesllyn :** Mae'r bins halen sydd ar bwys y tro wastad yn wag a dim ond llond bwced o halen sydd yn y bin yng nghanol y pentref. Bydd ishe'r clerc rhoi wbod i CLIC.

17.4 **Coedybryn :** Mae ishe pads newydd i'r peiriant Di-Ffib.

17.5 Ma rhywun wedi awgrymu cael grwp 'WhatsApp' i'r gymuned.

17.6 **Ffostrasol :** Mae tipio anghyfreithlon gwael ar hewl Plwmp. Mae e'n gwaethygu. Ishe'r clerc rhoi wbod i'r cyngor drwy CLIC.

17.7 Faint o halen sy'n mynd mas ?

17.8 **Croeslan :** Mae tyllau gwael yn yr hewl o Groeslan i Benrhos.

**18. Cinio Nadolig 2025**

18.1 Bydd rhaid trafod hwn yn mis Chwefror.

**19. Cyfarfod Nesaf**

19.1 Cynhelir cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydlewis , nos Fawrth 10fed Chwefror 2026 am 7.30.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

GEThomas 10.02.26

------------------------------------------------------- -------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad